# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0698(CWS) a gyhoeddwyd gan Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, ar 29 Mawrth 2006

**At Huw Lewis a Leighton Andrews:**

Yn ystod y sesiwn gwestiynau ar 29 March, addewais y rhoddwn wybodaeth bellach i chi—a Leighton Andrews—ar grantiau amgylchedd hanesyddol mewn ardaloedd yn y Cymoedd.

Bu ichi ofyn yn benodol ynghylch grantiau gan Cadw, ond mae'n bwysig i chi werthfawrogi bod yr amgylchedd hanesyddol yn cwmpasu ystod eang o asedau y tu hwnt i gylch gorchwyl Cadw, gan gynnwys adeiladau hanesyddol, henebion, parciau, gerddi a thirweddau hanesyddol, a gwasanaethau amgueddfa ac archifo.

Atodaf restr o'r grantiau a roddwyd gan Cadw, CyMAL a'r Chronfa Dreftadaeth y Loteri i'r siroedd canlynol yng Nghymoedd y De: Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf and Thor-faen. Atodaf enghreifftiau o'r mathau o brosiectau a gefnogwyd hefyd. Yn ogystal, bu grant o dan gynllun adfywio ffisegol Llywodraeth y Cynulliad, sydd wedi dod i ben erbyn hyn.

Mae nifer o gynlluniau grant gan Cadw

- ar gyfer adnewyddu adeiladau sydd o ddiddordeb eithriadol yn bensaernïol neu'n hanesyddol. Mae'r maen prawf 'eithriadol' o safon uchel iawn ac wedi ei gyfyngu i gyfran fechan o adeiladau wedi eu rhestru, a chynghorir Llywodraeth y Cynulliad ynghylch hyn gan banel ymgynghorol o arbenigwyr, y Cyngor Cynghorol ar Adeiladau Hanesyddol;
- ar gyfer gwaith a fydd yn gwella ymddangosiad ardal gadwraeth—gall hyn gynnwys adeiladau unigol mewn ardal gadwraeth, neu ardaloedd cyfan, megis y fenter treftadaeth treflun (mae'r partneriaid yn cynnwys Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cadw, yr awdurdod lleol, Bwrdd Datblygu Cymru ac eraill), neu bartneriaethau treflun rhwng awdurdodau lleol a Cadw;
- ar gyfer prosiectau gwirfoddol lleol fydd yn hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r amgylchedd hanesyddol; ac
- ar gyfer cynnal a chadw, adnewyddu a chyfnerthu henebion cofrestredig.

Yn gyffredinol, mae'r cynlluniau yr ydym yn eu rhedeg yn dibynnu ar alw ac yr ydym yn ddibynnol ar ymgeiswyr i gysylltu â ni gyda phrosiectau a strwythurau fydd yn cwrdd â meini prawf y grant. Fodd bynnag, yr ydym yn ceisio annog cymaint o geisiadau am grantiau ag sy'n bosibl o ardaloedd y Cymoedd ac yr ydym wedi rhoi sawl gwobr i brosiectau sy'n adlewyrchu treftadaeth ddiwydiannol hynod bwysig yr ardal hon, er enghraifft, gwaith dur Cyfartha ym Merthyr Tudful a'r astudiaeth o'r tirwedd diwydiannol ym Mlaenafon. Mae'r fenter treftadaeth treflun a'r partneriaethau treflun ym Maesteg, Rhymni, Castell-nedd a Ton-du yn arbennig o ddefnyddiol. nid yn unig o ran cadw cymeriad hanesyddol a gwella ymddangosid ardaloedd hanesyddol pwysig sydd wedi dirywio, ond o ran adfywio'r ardaloedd hynny a chreu cyfleoedd i gael swyddi. Deallaf fod y posibilrwydd o gael cynllun trefol wedi ei grybwyll yn y cyfarfod a gawsoch ym Merthyr Tudful y llynedd gyda'r awdurdod lleol, Cadw a chyrff eraill. Byddai gofyn i'r awdurdod ddynodi ardal gadwraeth i wneud hyn, ac ymddengys ei fod yn amharod i wneud hynny. Trafodwyd adnewyddu adeiladau pwysig yn y dref, megis adeilad y YMCA, hefyd; byddai angen swm sylweddol o arian, ond dangoswyd cefnogaeth mewn egwyddor, yn enwedig pe gellid sefydlu ymddiriedolaeth a allai dderbyn cyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Byddwn yn trafod y materion hyn a rhai eraill ymhellach pan fyddwn yn cyfarfod mis nesaf.

**Grantiau Cadw—Ardaloedd Cymoedd y De**

Grantiau Cadw a roddwyd i ardaloedd Cymoedd y De, yn ôl y sir (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Tor-faen).

| Blwyddyn | Grant adeiladau hanesyddol | Partneriaethau cynllun trefol/ menter treftadaeth treflun | Grant henebion |
|---|---|---|---|
| 1999-2000 | £193,456 | Nil | £61,187 |
| 2000-01 | £371,461 | £7,713 | £261,207 |
| 2001-02 | £285,113 | £32,688 | £101,679 |
| 2002-03 | £298,086 | £3,870 | £154,656 |
| 2003-04 | £473,600 | £8,668 | £34,231 |
| 2004-05 | £145,352 | £74,732 | £43,588 |
| 2005-06 (y ffigurau diweddaraf sydd ar gael) | £86,000 | £38,792 | £31,598 |

**Enghreifftiau o grantiau CADW yng Nghymoedd y De**

- **Grantiau ar gyfer adeiladau eithriadol ac i wella ardaloedd cadwraeth**

**Tŷ Crwn y De-orllewin, Fferm y Tŷ Crwn, Nant-y-glo, Blaenau Gwent**
Cynigwyd grant o £6,000 ar gyfer gwaith cyfnerthu.

**Eglwys Crist, Stryd yr Eglwys, Glynebwy, Blaenau Gwent**
Grant o £145,000 ar gyfer adnewyddu'r tŵr a'r meindwr, yn ogystal â gwaith gwydro, cerrig ac ail-bwyntio mewn rhannau eraill o'r eglwys.

**Traphont Hengoed, Maesycwmer, Hengoed, Caerffili**
Grant o £75,000 ar gyfer gwaith trwsio cerrig hanfodol i adeiladwaith y draphont, sy'n cael ei defnyddio yn awr fel rhan o lwybr hir ar gyfer cerddwyr a beicwyr—y llwybr Celtaidd—sy'n ffurfio rhan o'r rhwydwaith beicio cenedlaethol.

**Capel Groeswen, Groeswen, Caerffili**
Cyfanswm o £40,000 i wneud gwaith ar y to, gwaith plwm a gwaith ailrendro i'r capel, sydd wedi ei gofrestru fel adeilad Gradd II. Hwn oedd y capel Methodistaidd Calfinaidd cyntaf yng Nghymru.

**Rhif 16, Garden Suburbs, Pont-y-waun, Crosskeys, Caerffili**
Cynigwyd £5,000 i adnewyddu'r to, y canopi uwchben y mynediad, y wal gynnal flaen a giât Rhif 16 Garden Suburbs.

**Eglwys Sant Catwg, Gelli-gaer, Caerffili**
Grant o £90,000 tuag at raglen gynhwysfawr o waith, gan gynnwys aildoi, ailbwyntio a phwytho strwythurol.

**Traphont Cefn Coed, Cefn Coed, Merthyr Tudful**
Grant o £24,000 i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful tuag at adnewyddu adeiladwaith hanesyddol y draphont fel rhan o gynllun mwy o adnewyddu sy'n cael ei gynnal gan y cyngor.

**Capel Gynulleidfaol Zoar-Ynysgau, Pontmorlais, Merthyr Tudful**
Grant o £138,000 tuag at raglen gynhwysfawr o waith trwsio ac adnewyddu yn yr eglwys.

**Capel Ysbrydegol Santes Margaret, Lower Thomas Street, Merthyr Tudful**
Grant o £6,000 wedi ei gynnig ar gyfer gwaith trwsio ar do'r porth a gwaith trwsio plwm cysylltiedig.

**Gerddi Victoria (Reiliau a Llochesau Bws/Gardd Pren), Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot**
Grant o £15,000 ar gyfer ailosod y reiliau gwreiddiol ar waliau isel ac adnewyddu'r llochesau bws/parc gwreiddiol.

**Eglwys Sant Michael, Cwmafon, Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot**
Cyfanswm o £20,000 i adnewyddu tu mewn hanesyddol yr eglwys.

**Elusendai Llewellyn, Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot**
Grant o £8,000 i drwsio gwaith dŵr glaw yr adeilad hwn ac adeiladwyd yn 1897 fel cartref ar gyfer menywod o'r eglwys oedd yn sengl neu'n weddwon.

**Eglwys Santes Margaret, Ffordd Dyffryn, Caegarw, Aberpennar, Rhondda Cynon Taf**
Cynigwyd £30,000 i roi llechi newydd ar do'r eglwys a thrwsio pren y to, y gwaith cerrig a'r gwaith dŵr glaw.

**Eglwys Santes Catherine, Gelliwasted Grove, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf**
Grant o £64,378 ar gyfer adnewyddu'r twr a'r meindwr a gwaith trwsio'r gwaith bric yn y gangell, a grant o £84,400 ar gyfer y gwaith i adnewyddu waliau bric mewnol yr eglwys.

**Capel Bethlehem, Y Stryd Fawr, Treorci, Rhondda Cynon Taf**
Cynigwyd grant o £17,500 ar gyfer fframiau ffenestr newydd sy'n union fel y rhai gwreiddiol.

**Eglwys Sant Elfan, Aberdâr, Rhondda Cynon Taf**
Grant o £39,500 tuag at roi llechi newydd ar do'r ystlysau a'r porth gogleddol, adnewyddu gwaith gwteri dyffryn y de, adnewyddu'r ffenestri, a gwaith allanol arall i leihau faint o ddŵr sy'n dod i mewn i'r adeilad.

**Pwll Mawr: Amgueddfa Lofal Cymru, Blaenafon, Tor-faen**
Grant o £56,000 ar gyfer trwsio ac adnewyddu'r tŷ gwyntyll, adeilad pen y pwll a'r felin lifio.

**Amgueddfa Pont-y-pŵl, Adeiladau'r Parc, Pont-y-pŵl, Tor-faen**
Mae £85,250 wedi cael ei gynnig tuag at gynllun i adnewyddu tu allan yr hen floc stablau ym mharc Pont-y-pŵl.

**Capel Efengylaidd Blaenafon, Broad Street, Blaenafon, Tor-faen**
Cyfanswm o £8,000 i drwsio'r reiliau a'r wal gynnal o flaen y capel hwn o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yng nghanol tref Blaenafon.

**Ysgol St Peter, Ffordd yr Eglwys, Blaenafon, Tor-faen**
Grant o £82,500 wedi ei gynnig ar gyfer gwaith adnewyddu allanol sylweddol.

- **Mentrau Treftadaeth Treflun/Partneriaethau Treflun**

**MTT Rhymni**
Yn ystod 2004 a 2005-06, mae Cadw wedi ymrwymo bron i £100,000 i brosiect MTT Rhymni, sy'n mynd rhagddo.

Mae £1 filiwn yn y gronfa gyffredin ar gyfer MTT Rhymni, a daw £500,000 ohono o Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae partneriaethau eraill yn cyfrannu'r gweddill, ac mae'r rhain yn cynnwys Cadw, Bwrdd Datblygu Cymru, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo a Chyngor Cymunedol Rhymni.

**MTT Maesteg**
Mae Cadw wedi ymrwymo £60,000 i ran 1 menter treftadaeth treflun Maesteg ac mae £60,000 arall wedi ei ymrwymo o dan ran 2. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi ymrwymo £1,160,000 i'r prosiect.

**MTT Pen-y-bont ar Ogwr**
Mae Cadw wedi ymrwymo £60,000 dros dair blynedd ar gyfer rhan 1 MTT canol tref Pen-y-bont ar Ogwr. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi ymrwymo £935,000 i'r prosiect.

**Cynllun Partneriaeth Tref Castell-nedd**
Ymrwymwyd £60,000 gan Cadw dros dair blynedd a chaiff y swm hwn ei gyfateb gan yr awdurdod lleol.

**Cynllun Partneriaeth Tref Ton-du (Park Terrace)**
Mae Cadw wedi ymrwymo £60,000 dros dair blynedd ar gyfer gwaith cadwraeth i safle hanesyddol Park Terrace yn Nhon-du.

**Butetown, Caerffili**
Mae Cadw wedi cynnig grant o £15,400 i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer paratoi cynllun cadwraeth a strategaeth ddarparu gyda golwg, o bosibl, ar wneud cais am gynllun partneriaeth tref ar gyfer Butetown.

- **Grantiau ar gyfer grwpiau gwirfoddol lleol**

**Ail-greu'r gwarchae ar Gastell Coety**
Mae cynllun grant mentrau dinesig (treftadaeth) Cadw wedi darparu oddeutu £8,000 dros y blynyddoedd diwethaf tuag at ailgreu'r gwarchae ar gastell Coety gan Owain Glyndŵr ychydig dros 600 mlynedd yn ôl, ac agorodd y Prif Weinidog y digwyddiad yn 2004.

**O'r Pwll i'r Porthladd**
Darparodd grant mentrau dinesig (treftadaeth) Cadw ei grant mwyaf o £2,000 tuag at gerflun a fydd yn deyrnged i'r rhai oedd yn gweithio yn y diwydiant glo yn ne Cymru.

**Twenty 20 Memories**
Mae Cadw wedi cynnig grant o £1,250 fel cyfraniad tuag at gyhoeddi llyfr am bobl ac adeiladau cymuned Cwarter Bach yn nyffryn Castell-nedd.

**Caban 9 – Gwersyll Carcharwyr Rhyfel, Pen-y-bont ar Ogwr**
Rhoddodd Cadw grant o £2,000 i Gymdeithas Treftadaeth Island Farm yn 2004-05 tuag at arddangosfa i gyd-fynd â dathlu 60 mlynedd ers i bobl ddianc o gaban 9.

- **Grantiau ar gyfer henebion wedi eu cofrestru**

**Tirlun Diwydiannol Blaenafon**
Grant o tua £18,000 i Gyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen tuag at y gost o astudio tirlun diwydiannol Blaenafon, er mwyn galluogi strategaeth i gael ei greu ar gyfer gwella mynedfa gyhoeddus at henebion a'u cadwraeth.

**Gwaith Dur Cyfartha, Merthyr Tudful**
Rhoddwyd grant o £139,369 ar gyfer cadwraeth gwaith dur Cyfartha.

**Ffordd Dram Penydarren, Merthyr Tudful**
Rhoddwyd grant o £44,538 i Groundwork Merthyr & Rhondda Cynon Taff ar gyfer y gwaith y mae wedi ei drefnu ar gyfer ffordd dram Penydarren, sy'n llunio rhan o lwybr beicio Trevithick.

**Pwll Hetty, Pontypridd**
Cyfres o grantiau gyda chyfanswm o £40,600 i Gymdeithas Hanesyddol Pontypridd ar gyfer ei waith gwirfoddol i adnewyddu'r peiriandy a'i beiriant ymdroelli.

**Pyllau Glyn, Tor-faen**
Cyfanswm o £66,757 o grantiau ar gyfer gwaith i gadarnhau a rhoi to ar yr adeiladau sy'n dirywio ar y safle pwysig hwn.

**Ffordd Dram a Chamlas Chwarel y Gurnos, Merthyr Tudful**
Grant o £50,670 ar gyfer cadwraeth y strwythur, sydd mewn cyflwr bregus.

**Gwaith Dur Ton-du, Pen-y-bont ar Ogwr**
Grant o £112,847 i Ymddiriedolaeth Groundwork ar gyfer cynllun i warchod y safle eang hwn a gwneud defnydd o adeiladau addas unwaith eto.

**Argae Gwaith Dur Abaty Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot**
Grant o £45,153 ar gyfer gwarchod ac ailadeiladu'r argae hanesyddol y mae ei adeiladwaith wedi simsanu.

**Gwaith Dur Abaty Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot**
Grant o £10,175 ar gyfer gwaith adferol wedi i wal gynnal ddisgyn gan ddatgelu olion cerrig trawiadol wedi eu claddu yn y twll.

**Hen Bont Pen-y-bont ar Ogwr, Pen-y-bont ar Ogwr**
Grant o £40,626 i drwsio pafin y bont hanesyddol a gwella'r system ddraenio.

**GRANTIAU CRONFA DREFTADAETH Y LOTERI—ARDALOEDD CYMOEDD DE CYMRU**

Yn ogystal â chynlluniau Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r cynlluniau MTT, rhoddwyd dros £17.5 million o grantiau CDL i ardaloedd Cymoedd y De (Pen-y-bont ar Ogwr; Caerffili; Merthyr Tudful; Castell-nedd Port Talbot; Rhondda Cynon Taf; Tor-faen) fel a ganlyn:

| Blwyddyn | Grant |
|---|---|
| 1999-2000 | £1,727,600 |
| 2000-01 | £1,094,459 |
| 2001-02 | £7,009,500 |
| 2002-03 | £1,803,633 |
| 2003-04 | £1,766,600 |
| 2004-05 | £596,700 |
| 2005-06 | £3,602,175 |
| Cyfanswm | £17,600,667 |

**Mae enghreifftiau o grantiau CDL yn cynnwys:**

**Bandstand Parc Bedwellte, Tredegar, Blaenau Gwent**
Grant o £85,200 i gyngor tref Tredegar ar gyfer trwsio ac adnewyddu'r bandstand.

**Capel Hen dy Cwrdd, Hengoed, Caerffili**
Grant o £51,100 i'r capel ar gyfer gwaith trwsio.

**Sefydliad a Neuadd Goffa Gweithwyr Chwareli Celynen, Trecelyn, Caerffili**
Grant o £50,000 i ymddiriedolwyr y sefydliad ar gyfer cam 1 y prosiect adnewyddu yn y sefydliad a'r neuadd goffa.

**Eglwys Ioan Fedyddiwr, Troedyrhiw, Merthyr Tudful**
Grant o £85,000 ar gyfer gwaith trwsio yn yr eglwys.

**Trevithick 2004**
Grant o £49,600 i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer digwyddiadau i ddathlu bod locomotif Penydarren Richard Trevithick yn 200 oed.

**Castell a Pharc Gwledig Margam, Castell-nedd Port Talbot**
Grantiau yn dod i gyfanswm o £751,000 i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar gyfer ailddatblygu'r castell a'r parc ym Margam.

**Neuadd a Sefydliad Gweithwyr Abercwmboi, Rhondda Cynon Taf**
Grant o £14,400 ar gyfer gwarchod a gwneud addasiadau angenrheidiol i neuadd y gweithwyr yn Abercwmboi.

**Pwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru, Blaenafon, Tor-faen**
Grant o £5,278,000 i Ymddiriedolaeth Pwll Mawr (Blaenafon) ar gyfer prosiectau yn Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru.

**GRANTIAU CyMAL I ARDALOEDD CYMOEDD DE CYMRU**

Ers iddo gael ei sefydlu ym mis Ebrill 2004, mae CyMAL wedi talu grantiau o dros £600,000 i amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol yn ardaloedd Cymoedd de Cymru. Mae'r cynlluniau a dderbyniodd grantiau yn cynnwys:

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**
Cyfanswm o £19,700 ar gyfer datblygu porth hanesyddol ar gyfer y we a rennir.

**Amgueddfa Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful**
O gwmpas £10,800 ar gyfer amrywiaeth o gynlluniau i wella arddangosfeydd, adnoddau a gwybodaeth ar gyfer ymwelwyr.

**Amgueddfa a Galeri Dyffryn Cynon**
Grant o £2,250 ar gyfer prosiect partneriaeth i greu arddangosfa a gwefan i annog cymunedau i ddefnyddio eu casgliadau hanesyddol.

**Amgueddfeydd Rhondda Cynon Taf (Dyffryn Cynon, Parc Treftadaeth y Rhondda, Tsieina Nantgarw)**
Cyfanswm o £11,957 ar gyfer cynllun cynhwysfawr o fonitro a diogelu'r amgylchedd a chynllunio brys ar ei gyfer.

**Gwasanaethau Llyfrgell Sirol Rhondda Cynon Taf**
Grant o £39,813 ar gyfer digideiddio Llwybr Treftadaeth y Rhondda, a hyfforddiant TGCh gwell ar gyfer defnyddwyr anabl.

**Amgueddfa Pont-y-pŵl, Tor-faen**
Cyfanswm o £23,802 ar gyfer adnewyddu arddangosfa'r amgueddfa.